## YR ATODLEN

Rheoliad 10(3)

Symudiadau a ganiateir

# RHAN 1

## Wyau deor

**1.**—(1) Os bodlonir yr amodau yn is-baragraff (2), symudiad unrhyw ŵy sy'n deor—

(a) o fangre sydd mewn parth brechu i fangre arall sydd mewn parth brechu; neu

(b) o fangre sydd mewn parth brechu, neu sy'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd y tu allan i barth brechu neu nad yw'n destun hysbysiad brechu.

(2) Dyma'r amodau—

(a) mae'r ŵy deor yn tarddu o haid fridio sydd wedi'i harchwilio'n glinigol gan arolygydd milfeddygol nad yw wedi gosod yr haid honno o dan unrhyw gyfyngiadau;

(b) mae wedi cael ei ddiheintio cyn ei anfon yn unol â chyfarwyddiadau a ddyroddir gan arolygydd milfeddygol;

(c) mae i'w gludo yn uniongyrchol i ddeorfa ddynodedig.

(3) Symudiad unrhyw wy deor o fangre sydd y tu allan i barth brechu, neu nad yw'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd mewn parth brechu neu'n destun hysbysiad brechu, ar yr amod ei fod yn cael ei gludo yn uniongyrchol i ddeorfa ddynodedig.

# RHAN 2

## Wyau heblaw wyau deor

**2.**—(1) Os bodlonir yr amodau yn is-baragraff (2), symudiad unrhyw ŵy heblaw wy sy'n deor—

(a) o fangre sydd mewn parth brechu i fangre arall sydd mewn parth brechu; neu

(b) o fangre sydd mewn parth brechu, neu sy'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd y tu allan i barth brechu neu nad yw'n destun hysbysiad brechu.

(2) Yr amodau yw bod yr ŵy yn tarddu o haid ddodwy sydd wedi'i harchwilio'n glinigol gan arolygydd milfeddygol nad yw wedi gosod yr haid honno o dan unrhyw gyfyngiadau ac—

(a) ei fod yn cael ei gludo i ganolfan bacio ddynodedig a'i fod wedi'i bacio mewn deunydd pacio tafladwy a bod pob mesur bioddiogelwch sy'n ofynnol gan y drwydded symud yn cael ei ddefnyddio; neu

(b) ei fod yn cael ei gludo i sefydliad ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion wyau fel a nodir ym Mhennod II o Adran X o Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 853/2004(**1**)er mwyn iddynt gael eu trafod a'u trin yn unol â Phennod XI o Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 852/2004(**2**).

**3.** Symudiad unrhyw ŵy heblaw ŵy deor o fangre sydd y tu allan i barth brechu, neu nad yw'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd mewn parth brechu neu'n destun hysbysiad brechu, ar yr amod bod—

(**1**) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.55.
(**2**) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.1.

(a) ei fod yn cael ei gludo i ganolfan bacio ddynodedig a'i fod wedi'i bacio mewn deunydd pacio tafladwy a bod pob mesur bioddiogelwch sy'n ofynnol gan y drwydded symud yn cael ei ddefnyddio; neu

(b) ei fod yn cael ei gludo i sefydliad ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion wyau fel a nodir ym Mhennod II o Adran X o Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 853/2004 er mwyn iddynt gael eu trafod a'u trin yn unol â Phennod XI o Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 852/2004.

## RHAN 3

### Cywion diwrnod oed

**4.** Symudiad cyw diwrnod oed o fangre sydd mewn parth brechu i fangre arall sydd mewn parth brechu ar yr amod ei fod yn tarddu o ŵy deor sy'n bodloni'r amodau a nodir ym mharagraff 1(2).

**5.** Symudiad unrhyw gyw diwrnod oed o fangre sydd mewn parth brechu, neu sy'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd y tu allan i barth brechu neu nad yw'n destun hysbysiad brechu, ar yr amod —

(a) nad yw wedi cael ei frechu; a

(b) ei fod yn tarddu o ŵy deor sy'n bodloni'r amodau a nodir ym mharagraff 1(2) neu 2.

**6.** Symudiad unrhyw gyw diwrnod oed o fangre sydd y tu allan i barth brechu, neu nad yw'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd mewn parth brechu neu'n destun hysbysiad brechu.

## RHAN 4

### Dofednod neu adar caeth byw eraill

**7.** Symudiad unrhyw ddofednod (ac eithrio'r rhai sy'n mynd i'w cigydda) neu adar caeth byw eraill o fangre sydd mewn parth brechu i fangre arall sydd mewn parth brechu ar yr amod —

(a) bod yr adar wedi'u brechu yn erbyn ffliw adar os yw brechu yn ofynnol yn y fangre o le y symudir hwy gan ddatganiad neu hysbysiad brechu o dan reoliad 6(1); a

(b) bod yr adar wedi cael eu harchwilio'n glinigol gan arolygydd milfeddygol nad yw wedi'u gosod o dan unrhyw gyfyngiadau.

**8.** Symudiad unrhyw ddofednod (ac eithrio'r rhai sy'n mynd i'w cigydda) neu adar caeth byw eraill o fangre sydd mewn parth brechu, neu sy'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd y tu allan i barth brechu neu nad yw'n destun hysbysiad brechu ar yr amod —

(a) nad ydynt wedi cael eu brechu; a

(b) bod yr adar wedi cael eu harchwilio'n glinigol gan arolygydd milfeddygol nad yw wedi'u gosod o dan unrhyw gyfyngiadau.

**9.** Symudiad unrhyw ddofednod byw (ac eithrio'r rhai sy'n mynd i'w cigydda) neu adar caeth eraill o fangre sydd y tu allan barth brechu, neu nad yw'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd mewn parth brechu neu yn destun hysbysiad brechu.

# RHAN 5

## Dofednod wedi'u brechu i'w cigydda

**10.**—(1) Os bodlonir yr amodau yn is-baragraff (2), symudiad unrhyw ddofednod wedi'u brechu i'w cigydda—

(a) o fangre sydd mewn parth brechu i fangre arall sydd mewn parth brechu; neu

(b) o fangre sydd mewn parth brechu, neu sy'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd y tu allan i barth brechu neu nad yw'n destun hysbysiad brechu.

(2) Dyma'r amodau—

(a) mae'r dofednod wedi'u brechu â brechlyn a bennwyd yn y datganiad neu hysbysiad brechu brys o dan reoliad 6(1);

(b) mae'r adar wedi cael eu harchwilio'n glinigol a'u profi cyn eu llwytho gan arolygydd milfeddygol nad yw wedi'u gosod o dan unrhyw gyfyngiadau;

(c) mae'r adar wedi cael eu harchwilio'n glinigol gan arolygydd milfeddygol cyn pen 48 o oriau cyn eu llwytho ac os yw'n briodol mae unrhyw adar dangos clwy yn y fangre hefyd wedi cael eu harchwilio gan arolygydd meddygol;

(ch) maent i'w hanfon yn uniongyrchol i ladd-dy dynodedig.

# RHAN 6

## Dofednod heb eu brechu i'w cigydda

**11.**—(1) Os bodlonir yr amodau yn is-baragraff (2), symudiad unrhyw ddofednod heb eu brechu i'w cigydda—

(a) o fangre sydd mewn parth brechu i fangre arall sydd mewn parth brechu; neu

(b) o fangre sydd mewn parth brechu, neu sy'n destun hysbysiad brechu, i fangre sydd y tu allan i barth brechu neu nad yw'n destun hysbysiad brechu.

(2) Dyma'r amodau—

(a) mae'r dofednod wedi cael eu harchwilio'n glinigol cyn eu llwytho gan arolygydd milfeddygol nad yw wedi'u gosod o dan unrhyw gyfyngiadau;

(b) maent i'w hanfon yn uniongyrchol i ladd-dy dynodedig.

**12.** Symudiad unrhyw ddofednod i'w cigydda o fangre sydd y tu allan i barth brechu, neu nad yw yn destun hysbysiad brechu, i fangre sydd mewn parth brechu neu'n destun parth brechu, ar yr amod eu bod yn cael eu hanfon yn uniongyrchol i ladd-dy dynodedig.

# RHAN 7

## Symudiad dofednod neu adar caeth byw eraill y tu allan i'r Deyrnas Unedig

**13.** Symudiad dofednod neu adar caeth byw eraill o'r Deyrnas Unedig o fangre sydd mewn parth brechu neu sy'n destun hysbysiad brechu ar yr amod bod y symudiad wedi'i awdurdodi gan yr Aelod-wladwriaeth sy'n eu derbyn.

# RHAN 8

## Dehongli

**14.** Yn yr Atodlen hon, mae mangre sydd i'w mynegi fel un “dynodedig” yn fangre y bernir ei bod yn ddynodedig yn unol â rheoliad 9(6).